**LC1196**

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**The Avian Influenza (Preventive Measures in Zoos) (Wales) (No.2) Regulations 2005**

Diben y Rheoliadau hyn yw rhoi effaith i Benderfyniad y Comisiwn 2005/744/EC, a'i gwnaeth yn ofynnol i'r Aelod-wladwriaethau gymryd mesurau priodol ac ymarferol i leihau'r risg y byddai ffliw adar yn cael ei drosglwyddo o adar sy'n byw yn y gwyllt i adar a allai gael eu heintio sy'n cael eu cadw mewn swau. Maent yn dirymu ac yn ail-lunio The Avian Influenza (Preventive Measures in Zoos) (Wales) Regulations 2005 gyda mân newidiadau sy'n cynnwys cywiro'r pwyntiau a godwyd yn adroddiad y Pwyllgor ar y Rheoliadau cynharach. Gwnaed y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn weithredol ar 8 Rhagfyr 2005, a daethant i rym y diwrnod canlynol.

**Rheol Sefydlog 11.7**
Nodwyd y pwynt canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7

Gwnaed y Rheoliadau hyn yn Saesneg yn unig. Bu'n rhaid gwneud y Rheoliadau ar frys ac felly daeth y Gweinidog i'r casgliad nad oedd yn rhesymol ymarferol eu gwneud yn ddwyieithog. [Rheol Sefydlog 11.7(viii)]

**Glyn Davies AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**17 Ionawr 2006**